**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN**

## ATODLEN TALIADAU I AELODAU

Gwneir y Cynllun hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n berthnasol i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

### 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Rhaid talu Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Pan fydd cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen ar adeg ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i Gyflog Sylfaenol ar sail pro-rata.

1.4 Nid yw mwy nac un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

### 2. Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

2.1 Bydd Aelodau sydd â swyddi penodol yn derbyn Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd yr Uwch Gyflogau a'r Cyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae'r holl Uwch Gyflogau a'r Cyflogau Dinesig yn cynnwys Cyflog Sylfaenol.

2.6 Ni ellir talu Uwch Gyflog i nifer uwch o Aelodau na'r hyn a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol, ac nid oes modd i'r nifer hwnnw fod yn fwy na hanner cant y cant o holl aelodaeth yr awdurdod, heblaw unigolyn sy'n gweithio dros dro mewn swydd sydd ag Uwch Gyflog, sy'n gweithio dros gyfnod o absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y maen nhw wedi eu henwebu atyn nhw.

2.8 Pan fydd cyfnod Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n gorffen ar adeg ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog ar sail pro-rata.

### 3. Dewis Ildio Hawl i Lwfans

3.1 Gall Aelod, drwy gyflwyno rhybudd ysgrifenedig i Swyddog Priodol yr Awdurdod, wneud dewis personol i ildio unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a bennir yn y rhybudd.

**4. Gwahardd Aelod**

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei wahardd neu'n cael ei wahardd yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf, bydd y rhan honno o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo dros y cyfnod y mae wedi'i wahardd yn cael ei gadw'n ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) y Mesur).

4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol o'i gyfrifoldebau fel Aelod o'r Awdurdod, yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf, ni fydd yr Awdurdod yn talu Uwch Gyflog yr Aelod dros gyfnod y gwaharddiad (Adran 155 (1) y Mesur). Os yw'r gwaharddiad rhannol yn berthnasol i elfen cyfrifoldeb penodol o'r taliad, gall yr Aelod dderbyn Cyflog Sylfaenol.

**5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

5.1 Pan fydd unrhyw gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei dalu i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod y mae'r Aelod dan sylw :

(a) wedi'i wahardd neu wedi'i wahardd yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod/Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf honno;
(b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
(c) mewn unrhyw ffordd arall yn anghymwys i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn gofyn i unrhyw ran o'r cyflog, lwfans neu ffi fel sy'n berthnasol i unrhyw gyfnod o'r fath gael ei ad-dalu.

**6. Taliadau**

6.1 Bydd taliadau lwfansau yn cael eu gwneud gan yr Arweinydd Tîm Cyflogau trwy gredyd banc uniongyrchol mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg hawl blynyddol yr Aelod ar ddiwrnod gwaith olaf bob mis.

6.2 Pan fydd taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn gofyn i'r gordaliad gael ei ad-dalu.

6.3 Mae pob taliad yn destun gostyngiadau am dreth ac Yswiriant Gwladol priodol.

**7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol**

7.1 Telir cyfraniad ar Gostau Gofal a Chymorth Personol i Aelod neu Aelod Cyfetholedig sydd â chyfrifoldeb i ofalu am blant neu oedolion sy'n ddibynnol arnyn nhw, neu ofyniad am ofal personol, cyhyd ag y bo'r aelod yn mynd i gostau am y gofal hynny tra'u bod yn ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' gyda'r cyngor.

7.2 Mae cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn berthnasol mewn perthynas â pherson dibynnol o dan 16 oed, neu berson dan oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'u teulu ac nad ydynt yn gallu cael eu gadael heb oruchwyliaeth ac mae'r Aelod neu Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig mwy nag un person dibynnol, gall yr

Aelod hawlio mewn nag un lwfans cyn belled â bo modd i'r Aelod ddangos angen i wneud trefniadau gofal ar wahân.

7.3 Gall Aelodau Cymwys hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer costau real ac a anfonebwyd fel dangosir yn **Atodlen 1**. Dylai pob hawliad ar gyfer cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol gael eu gwneud yn ysgrifenedig at y Gwasanaethau Democrataidd gan roi manylion amserau, dyddiadau a rhesymau am yr hawliad. Mae angen derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae gan Aelodau hawl dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, ac os ydynt yn bodloni'r amodau penodol mae ganddynt yr hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol, mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol waeth beth fu'u record presenoldeb yn syth cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.

8.3 Os yw Aelod sy'n derbyn uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, byddant yn parhau i dderbyn yr uwch gyflog drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os ydy'r awdurdod yn cytuno ei bod hi'n angenrheidiol gwneud penodiad dros dro oherwydd absenoldeb am resymau teuluol i lenwi swydd aelod sy'n derbyn uwch gyflog, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo'n gymwys i gael uwch gyflog os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

8.5 Os yw'r taliad i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod dros ei uchafswm o uwch gyflogau, bydd ychwanegiad i'r uchafswm hwnnw'n cael ei ganiatáu dros gyfnod y dirprwyad.

## 9. Taliadau Aelodau Cyfetholedig

9.1 Bydd ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) yn cael ei dalu i Aelodau Cyfetholedig, cyn belled â'u bod yn Aelodau Cyfetholedig Statudol gyda hawliau i bleidleisio.

9.2 Bydd taliadau'n ystyried amser teithio i ac o leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y raddfa ddyddiol).

9.3 Dynodir Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod; bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.

9.4 Gall y Swyddog Monitro a Phrif Swyddog Cyfreithiol Cynorthwyol bennu o flaen llaw p'un a oes cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod cyfan ai peidio, a bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben o fewn pedwar awr.

9.5 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod yn gyfarfod sy'n para hyd at 4 awr.

9.6 Diffinnir cyfarfod diwrnod cyfan yn gyfarfod sy'n para dros 4 awr.

9.7 Mae'r ffi ddyddiol a ffi hanner diwrnod i Gadeiryddion y Pwyllgor Safonau a’r Pwyllgor Archwilio, fel y’i pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn **Atodlen 1**.

9.8 Mae'r ffi ddyddiol a ffi hanner diwrnod i Aelodau Cyfetholedig statudol eraill gyda'r hawl i bleidleisio fel y’i pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn **Atodlen 1**.

9.9 Cyfradd fesul awr

Penderfynodd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2024-2025 fod gan y swyddog lleol perthnasol (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd) yr hyblygrwydd i benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod a phryd i gymhwyso cyfradd fesul awr lle mae'n synhwyrol i gydgrynhoi sawl cyfarfod byr.

## 10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

10.1 **Egwyddorion Cyffredinol**

10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer ‘dyletswyddau wedi’u cymeradwyo’ fel y’i nodir yn **Atodlen 2**. Pan fydd Aelodau’n teithio ar fusnes yr Awdurdod, mae disgwyl iddynt deithio yn y modd mwyaf cost-effeithiol. Wrth asesu effeithiolrwydd y gost, bydd amser y daith yn cael ei ystyried. Gall hawliad Aelod leihau o swm priodol os nad yw Aelod yn defnyddio’r modd mwyaf cost-effeithiol o deithio.

10.3 Dylai Aelodau rannu trafnidiaeth ble bo’n bosib gwneud hynny.

10.4 Dylai’r pellter milltiroedd a hawlir fod y daith resymol fyrrach ar y ffordd o'r man cychwyn i’r lle y gwneir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o le'r ddyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Mae graddfeydd Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

10.6 Pan fydd Aelod o’r Awdurdod yn cael eu gwahardd o’u cyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o’r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaethpwyd dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddyn nhw mewn perthynas â'r cyfnod y maen nhw wedi eu gwahardd neu eu gwahardd yn rhannol gael eu cadw yn ôl gan yr Awdurdod.

## 11. Teithio mewn Cerbyd Preifat

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi pennu y dylai uchafswm y graddfeydd teithio sy'n daladwy fod y graddfeydd a bennir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau ynghyd ag ychwanegiad teithiwr.

11.2 Mae graddfeydd milltiroedd cerbydau preifat fel y’i diffinnir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn **Atodlen 3.**

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio eu cerbyd preifat eu hunain ar gyfer dyletswyddau wedi'u cymeradwyo, mae'n rhaid bod y cerbyd wedi'i yswirio ar gyfer defnydd busnes. Rhaid darparu tystiolaeth o'r yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

**12. Teithio ar Drafnidiaeth Gyhoeddus**

12.1 **Teithio ar Drên neu Fws**

Oni bai yr awdurdodir yn wahanol, bydd tocynnau trên yn rai ail ddosbarth.

12.2 **Pris Taith mewn Tacsi**

Bydd prisiau tacsi yn cael eu had-dalu pan fydd defnydd ohonyn nhw wedi'i awdurdodi ar gyfer achosion brys, pan nid yw trafnidiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu pan fydd gan Aelod angen personol penodol, a hynny'n unig. Rhoddir ad-daliad pan ddangosir derbynneb yn unig.

12.3 **Pris Taith mewn Awyren**

Caniateir teithio mewn awyren os mai dyma yw'r ffordd fwyaf cost-effeithiol o deithio. Mae angen caniatâd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a bydd tocynnau'n cael eu prynu gan Dîm Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau.

12.4 **Teithio Dramor**

Caniateir teithio dramor ar fusnes yr Awdurdod dim ond ble awdurdodir hynny gan Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Bydd Tîm Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau yn trefnu teithio a llety.

12.5 **Costau Teithio Eraill**

Mae gan Aelodau'r hawl ad-daliad ffioedd toll, ffioedd parcio, cadw car dros nos a chostau teithio angenrheidiol cysylltiedig eraill. Dim ond drwy ddangos derbynneb y rhoddir ad-daliad.

**13. Llety Dros Nos**

13.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu pan fydd busnes yr Awdurdod yn parhau dau ddiwrnod neu fwy, neu pan fydd pellter y lleoliad cyhyd nad yw hi'n rhesymol i deithio'n gynnar yn y bore nac yn hwyr yn y nos, a hynny'n unig. Rhaid i bob achos o aros dros nos gael ei awdurdodi o flaen llaw gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei drefnu gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ac Aelodau. Lle bo'n bosib, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu drwy anfoneb.

13.3 Caniateir i Aelod archebu llety dros nos yn uniongyrchol mewn achos brys yn unig. Rhoddir ad-daliad dim ond drwy ddangos derbynneb, a bydd ar lefel yr ystyrir ei bod yn rhesymol a heb fod yn fwy na'r graddfeydd a bennir yn **Atodlen 3**.

**14 Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Mae'r raddfa gynhaliaeth ddyddiol i gwrdd â chostau prydau a lluniaeth mewn perthynas â dyletswyddau sydd wedi'u cymeradwyo (gan gynnwys brecwast pan nad ydyw wedi'i ddarparu fel rhan o'r llety dros nos) yn **Atodlen 3.** Mae uchafswm y raddfa ddyddiol yn cynnwys cyfnod o 24 awr a gall gael ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd perthnasol, cyn belled a bod hawliad o'r fath wedi'i ategu gan dderbyneb(au).

14. 2 Does dim darpariaeth ar gyfer hawliadau am gynhaliaeth o fewn yr Awdurdod.

**15. Hawliadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid i hawliad am gostau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 90 diwrnod o ddiwedd y mis calendr pan ddaeth yr hawl i lwfans i fod a rhaid i dderbynebau perthnasol fod gyda'r hawliad.

15.2 Bydd lwfansau'n cael eu talu gan Arweinydd y Tîm Cyflogau trwy gredyd banc uniongyrchol.

**16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

**17 Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod**

17.1 Mae'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau dderbyn cefnogaeth ddigonol i gwblhau eu dyletswyddau ac y dylai'r gefnogaeth a ddarperir ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae gofyn i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yr Awdurdod adolygu lefel y gefnogaeth i Aelodau a dylai fynd ag argymhellion ar gyfer cefnogaeth resymol at y cyngor llawn.

17.2 Dylid darparu cyfleusterau ffôn, e-bost a rhyngrwyd digonol i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig er mwyn darparu mynediad electronig i wybodaeth briodol.

17.3 Dylai cefnogaeth o'r fath fod heb draul ar unrhyw Aelod. Ni ddylid tynnu arian o gyflog Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y gefnogaeth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu sydd yn angenrheidiol ar gyfer effeithiolrwydd a/neu effeithlonrwydd Aelodau.

**18 Cydymffurfio**

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y'i pennir yn **Atodlen 4.**

**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fod hawliadau treuliau yn destun archwiliad mewnol ac allanol.**

## ATODLEN 1

## ATODLEN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2026-27

| AELODAU Â HAWL I GAEL CYFLOG SYLFAENOL | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL |
|---|---|
| Yr aelodau etholedig o’r awdurdod a enwir isod | |
| 1. Stuart Ashley | £21,044 |
| 2. Alfie Best | £21,044 |
| 3. Catherine Bonera | £21,044 |
| 4. Ron Burnett | £21,044 |
| 5. Nick Byrne | £21,044 |
| 6. Liam Cowles | £21,044 |
| 7. Giles Davies | £21,044 |
| 8. Karl Gauden | £21,044 |
| 9. Nick Horler | £21,044 |
| 10. Jon Horlor | £21,044 |
| 11. Gaynor James | £21,044 |
| 12. Jon James | £21,044 |
| 13. Janet Jones | £21,044 |
| 14. Stuart Keyte | £21,044 |
| 15. Rosemary Matthews | £21,044 |
| 16. Caroline Price | £21,044 |
| 17. Nicholas Simons | £21,044 |
| 18. Chris Tew | £21,044 |
| 19. Colette Thomas | £21,044 |
| 20. David Thomas | £21,044 |
| 21. Jayne Watkins | £21,044 |
| 22. Lucy Williams | £21,044 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | |
| 1. | Arweinydd | Anthony Hunt | £67,079 |
| 2. | Dirprwy Arweinydd<br>Plant, Teuluoedd ac Addysg | Richard Giles Clark | £46,955 |
| 3. | Aelod Cabinet - Llywodraethu Corfforaethol a Pherfformiad | Peter Jones | £40,247 |
| 4. | Aelod Cabinet – Gwastraff a Chynaliadwyedd | Susan Morgan | £40,247 |
| 5. | Aelod Cabinet – Yr Economi, Sgiliau ac Adfywio | Joanne Gauden | £40,247 |
| 6. | Aelod Cabinet - Gwasanaethau Oedolion a Thai | David Daniels | £40,247 |

| | HAWL I UWCH GYFLOGAU<br>(yn cynnwys cyflog sylfaenol) | | SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG |
|---|---|---|---|
| | **RÔL** | **AELOD** | |
| 7. | Aelod Cabinet - Cymunedau | Fiona Cross | £40,247 |
| 8. | Aelod Cabinet – Yr Amgylchedd | Mandy Owen | £40,247 |
| 9. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Economi a'r Amgylchedd | Lynda Clarkson | £31,567 |
| 10. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Oedolion a Chymunedau | Mark Jones | £31,567 |
| 11. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Materion Trawsbynciol, Adnoddau a Busnes | David Williams | £31,567 |
| 12. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg ac Aelod Llywyddol | Rose Seabourne | £31,567 |
| 13. | Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Theuluoedd | Alan Slade | £31,567 |
| 14. | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio | Norma Parrish | £31,567 |
| 15. | Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Steven Evans | £31,567 |
| 16. | Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf | Elizabeth Haynes | £31,567 |
| 17. | Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau | Nathan Yeowell | £31,567 |

Gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau gael eu talu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac ni thalwyd yn fwy na hyn.

*Mae Cronfa Bensiwn Gwent (Torfaen) yn talu cyflog Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau (gan fod hwn yn bwyllgor trawsffiniol sy'n gyfrifol am bensiynau gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gwent gyfan). Ariennir elfen uwch y cyflog hwn gan y Gronfa Bensiwn ac nid Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

| HAWL I GYFLOGAU DINESIG | | SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Aelod Llywyddol | Rose Seabourne | di-dâl |
| Dirprwy Aelod Llywyddol | David Williams | di-dâl |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANSAU AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau | Rhodri Guest | Ffi ddyddiol o £268<br>Ffi hanner diwrnod o £134<br>Ffi yr awr - £33.50 |

| HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL | | SWM LWFANSAU AELODAU CYFETHOLEDIG |
|---|---|---|
| **RÔL** | **AELOD** | |
| | | Ffi |
| Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio | Kathryn Pegington | Ffi ddyddiol o £268. Ffi hanner diwrnod o £134 Ffi yr awr;- £33.50 |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol - Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Pwyllgor Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trosedd ac Anhrefn | Safonau:<br>• Leanne Lloyd-Tolman<br>• Mark Rees<br>• Lorraine Morgan<br>• Gregor Tay-Lodge<br><br>Craffu Addysg<br>• Victoria Horlor<br>• John Cunningham<br><br>Llywodraethu ac Archwilio<br>• Kathryn Pegington<br>• Michael Kelleher<br>• Mark Rees | Ffi ddyddiol o £210 Ffi hanner diwrnod o £105 Ffi yr awr: £26.25 |
| Aelodau Cyfetholedig - aelodau cyffredin o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau i Gynghorau Cymuned | Amherthnasol | Ffi ddyddiol o £238 Ffi hanner diwrnod o £119 Ffi yr awr: £29.75 |

| **Ad-dalu Costau Gofal** | |
|---|---|
| Pob Aelod –<br><br>• Costau gofal ffurfiol (cofrestrwyd ag Arolygaeth Gofal Cymru) i'w talu gyda thystiolaeth.<br>• Costau gofal anffurfiol (heb gofrestru) i'w talu hyd at fwyafswm, cyfradd sydd gyfwerth â Chyflog Byw Gwirioneddol y DU ar adeg mynd i gostau. | |

| **Cefnogaeth i Aelodau – yr hyn sy'n cael ei ddarparu o ran ffôn, y rhyngrwyd neu e-bost (gweler Penderfyniad 6)** | |
|---|---|
| Cefnogaeth Ffôn i Aelodau Gweithredol | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig ffôn Windows gan gynnwys pecyn galwadau a data |
| Cefnogaeth Ffôn i Gadeiryddion Pwyllgorau | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig ffôn Windows gan gynnwys pecyn galwadau a data |
| Cefnogaeth Ffôn i bob Aelod arall | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig ffôn Windows gan gynnwys pecyn galwadau a data |
| Mynediad at e-bost i Aelodau Gweithredol | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae |

| | |
|---|---|
| | hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |
| Mynediad at e-bost i Gadeiryddion Pwyllgorau | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |
| Mynediad at e-bost i bob Aelod arall | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |
| Cefnogaeth Rhyngrwyd i Aelodau Gweithredol | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |
| Cefnogaeth Rhyngrwyd i Gadeiryddion Pwyllgorau | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |
| Cefnogaeth Rhyngrwyd i bob Aelod arall | Mae pob Cynghorydd yn cael cynnig tabled Windows; cyfeiriad e-bost unigol a hyfforddiant gan yr awdurdod. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael ar gais ac mae gan Gynghorwyr fynediad at yr un ddesg gymorth â staff y Cyngor. |

Cefnogaeth i Aelodau Cyfetholedig

Mae Aelodau Cyfetholedig yn cael cefnogaeth gan swyddogion. Ni roddir unrhyw gyfarpar Torfaen

## ATODLEN 2

**Dyletswyddau sydd wedi'u cymeradwyo**: -

- mynychu cyfarfod yr awdurdod neu unrhyw bwyllgor yr awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo, neu unrhyw bwyllgor o gorff tebyg;
- mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod ohonynt;
- mynychu unrhyw gyfarfod arall sydd wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod neu gan bwyllgor o'r awdurdod neu gan gydbwyllgor awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill;
- dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddibenion neu mewn cysylltiad â swyddogaethau corff gweithredol ble mae'r awdurdod yn gweithredu trefniadau gweithredol o fewn ystyr Rhan II o Ddeddf 2000;
- dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn perthynas â gorchymyn sefydledig sy'n golygu bod rhaid i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendr yn cael eu hagor;
- dyletswydd a wneir mewn perthynas â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Awdurdod sy'n awdurdodi neu sy'n gofyn i'r awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio eiddo;
- mynychu unrhyw hyfforddiant neu ddigwyddiad datblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei gorff gweithredol neu fwrdd;
- unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall o fath sydd wedi ei gymeradwyo felly, ymgymerwyd â hi at ddibenion, neu mewn cysylltiad â, chyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un neu rai o'r pwyllgorau;
- mynychu unrhyw ddigwyddiad Dinesig os gwahoddir fel cynrychiolydd yr awdurdod; a
- mynychu cyfarfod gyda swyddogion yr awdurdod ble mae presenoldeb aelod yn angenrheidiol i symud ymlaen busnes hanfodol yr awdurdod.

## ATODLEN 3

**Graddfeydd Costau Teithio**

| | |
|---|---|
| Cerbydau preifat o bob maint | |
| Hyd at 10,000 o filltiroedd | 55c y filltir |
| Dros 10,000 o filltiroedd | 25c y filltir |
| Beiciau Modur Preifat<br>Beiciau | 24c y filltir<br>20c y filltir |
| Gyda theithiwr | 05c y filltir |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Mae’r raddfa cynhaliaeth diwrnod hyd at uchafswm o £28 ac yn berthnasol dros gyfnod o 24 awr, a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd perthnasol, cyn belled a bod hawliad yn cael ei ategu gan dderbynebion.

Ni chaniateir ad-dalu diodydd alcoholig.

**Aros dros nos**

Mwyafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 yn Llundain a £95 ymhob man arall. Mae uchafswm o £30 ar gael i aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd a gymeradwyir.

## ATODLEN 4

**Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i'r cyfanswm a dalwyd ganddo i bob Aelod ac Aelod Cyfetholedig mewn perthynas â chyflog, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau gael ei gyhoeddi ar wefan y cyngor, ar ddiwrnod heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Er mwyn tryloywder, bydd hyn yn cynnwys cyflog ar gyfer pob penodiad gwasanaeth cyhoeddus sydd gan Aelodau etholedig.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd ar wefan y cyngor a swydd ddisgrifiadau pob unigolyn sydd ag uwch gyflog, sy’n nodi’n glir y dyletswyddau a ddisgwylir.

- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi atodlen flynyddol Tâl Aelodau ar wefan y cyngor ar ddiwrnod heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn ystod y flwyddyn y mae'r atodlen yn berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn danfon copi o’r atodlen i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar ddiwrnod heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn ystod y flwyddyn y mae'r atodlen yn berthnasol iddi.

- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb Aelodau/Aelodau Cyfetholedig mewn cyfarfodydd cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae Aelod/Aelod Cyfetholedig yn cyflwyno hawliad am ad-daliad mewn perthynas â nhw.

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu cyhoeddi adroddiadau blynyddol Aelodau ar wefan y cyngor.

- Pan fydd yr Awdurdod yn cytuno ar ddirprwyad â thâl mewn perthynas ag absenoldeb teuluol, bydd yn hysbysu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o ddyddiad penderfynu ar y manylion, gan gynnwys y swydd benodol a chyfnod y dirprwyad.